## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Datblygu arferion gwaith chwarae cynhwysol a'u rhoi ar waith**

1. ymgynghori ag **eraill** gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu addas i sicrhau bod barn plant a phobl ifanc anabl yn cael ei hystyried
2. cyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau cynhwysiant gydag **eraill**
3. cyfrannu at gynnal polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau cynhwysiant gydag **eraill**
4. cyfrannu at roi deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth perthnasol ym maes chwarae cynhwysol ar waith
5. rhoi polisïau a gweithdrefnau cynhwysiant ar waith wrth recriwtio staff
6. rhoi polisïau a gweithdrefnau mynediad cynhwysiant ar waith
7. monitro a gwerthuso eich cyfraniad mewn perthynas â hawliau plant a phobl ifanc anabl o fewn y lleoliad gwaith chwarae
8. rhoi arferion addas ar waith gydag **eraill** mewn perthynas â chymorth personol a gofal personol iawn

**Rheoli arferion gwaith chwarae cynhwysol**

*

*

***9. cyflwyno delweddau cadarnhaol o blant a phobl ifanc anabl yn eich lleoliad gwaith chwarae***
***10. sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau yn adlewyrchu arferion cynhwysol o fewn fframwaith deddfwriaethol***
***11. sicrhau bod adnoddau a'r mynediad yn bodloni'r fframweithiau deddfwriaethol mewn perthynas ag anghenion plant a phobl ifanc anabl***
***12. rheoli'r gwasanaeth er mwyn cynnig yr un hawl i bob plentyn ac unigolyn ifanc chwarae***
***13. ymateb yn briodol i anghenion unigol plant a phobl ifanc anabl***
***14. hwyluso chwarae o amgylch diddordebau a gallu'r plant a'r bobl ifanc anabl***

***15. defnyddio amryw o ddulliau i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol gydag* *eraill**

16. defnyddio iaith a therminoleg addas sy’n cefnogi model cymdeithasol o anabledd
17. galluogi staff i fyfyrio ar eu harferion cynhwysol a rhannu arfer da
18. defnyddio adnoddau perthnasol, gan gynnwys nawdd, er mwyn helpu i gynnwys plant a phobl ifanc anabl
19. cefnogi staff i greu amgylchedd lle gall pob plentyn ac unigolyn ifanc reoli risg drostyn nhw eu hunain

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Datblygu arferion gwaith chwarae cynhwysol a'u rhoi ar waith**

*

*

***1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi.***

***2. sut i ystyried a gwerthuso eich dirnadaeth bersonol o anabledd***

***3. theorïau ac arferion cynhwysiant cyfredol***

***4. sut mae'r model cymdeithasol o anabledd yn sail i arferion gwaith chwarae cynhwysol***

***5. sut i nodi arferion da o ran gwaith chwarae cynhwysol***

***6. sut i nodi polisïau a chodau ymarfer a all wahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd***

***7. arferion sy'n atal plant a phobl ifanc anabl rhag chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud***

***8. beth yn union yw ystyr llunio canllawiau a pholisïau cynhwysol***

***9. effaith agweddau pobl eraill at blant a phobl ifanc anabl***

***10. deddfwriaeth berthnasol a sut mae'n gallu helpu i oresgyn rhwystrau i gynnwys plant a phobl ifanc anabl***

***11. sut i ymgynghori ag* *eraill**

12. dulliau cyfathrebu sy'n sicrhau bod barn plant a phobl ifanc anabl yn cael ei hystyried

13. sut i roi polisïau a gweithdrefnau cynhwysiant ar waith wrth recriwtio staff

14. sut i roi polisïau a gweithdrefnau mynediad cynhwysiant ar waith

15. pwysigrwydd monitro a gwerthuso eich cyfraniad yn barhaus mewn perthynas â hawliau plant a phobl ifanc anabl yn y lleoliad gwaith chwarae

16. pryd a sut i roi arferion gwaith addas ar waith gydag **eraill** mewn perthynas â chymorth personol a gofal personol iawn

**Rheoli arferion gwaith chwarae cynhwysol**

*

